**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Yr amcangyfrif atodol o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2012

Hydref 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8159
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: YPwyllgorCyfrifonCyhoeddus.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Yr amcangyfrif atodol o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2012

Hydref 2011

# 1. Cefndir

1. Mae Rheol Sefydlog 20.35 yn datgan:

*20.35 Os yw'r cynnig cyllideb atodol yn cynnig amrywio cyllideb yr Archwilydd Cyffredinol:*

*(i) rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu memorandwm esboniadol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn nodi pam mae angen amrywio'r gyllideb;*

*(ii) caiff y pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyflwyno adroddiad ar yr amrywiad arfaethedig o fewn tair wythnos ar ôl i'r cynnig cyllideb atodol gael ei gyflwyno. Caiff yr adroddiad gynnig unrhyw ddiwygiadau i'r amrywiad arfaethedig sy'n briodol ym marn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ar ôl iddo ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ganddo.*

2. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol nodyn esboniadol ar y cais cyllideb atodol ar gyfer 2011-12 ar 20 Medi 2011. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol, Kevin Thomas, yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, a Terry Jones, y Rheolwr Technegol ar 27 Medi 2011.

3. Bydd y cais cyllideb atodol yn rhan o gynnig cyllideb atodol Llywodraeth Cymru a ddisgwylir yn gynnar yn 2012.

**Newidiadau a argymhellir yn y gyllideb atodol**

4. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud cais am awdurdod y Cynulliad am wariant adnodd ac arian parod ychwanegol o £550,000 i rannol-ariannu cynllun diswyddo gwirfoddol newydd. Amcangyfrifir mai £800,000 fydd cyfanswm y costau. Bydd y £250,000 sy'n weddill yn cael ei ariannu o fewn cyllideb bresennol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2011-12.

5. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi manteisio ar y cyfle i gywiro'r ffaith nad oedd yr amcangyfrif gwreiddiol yn nodi gwariant cyfalaf ar wahân. Mae'n amcangyfrif y bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru wariant cyfalaf o £50,000 ar gyfer 2011-12, a bydd £20,000 o hwnnw yn cael ei ariannu o'r adnoddau a fydd yn cael ei roi gan y Cynulliad.

Nid yw hyn yn cael effaith ar y cyfanswm a fydd i gael ei awdurdodi gan y Cynulliad, gan fod yr un swm wedi cael ei dynnu o'r gwariant refeniw a amcangyfrifir. Daeth y mater i'r amlwg gan Audit Scotland mewn cysylltiad â'i archwiliad o gyfrifon 2010-11 Swyddfa Archwilio Cymru.

6. Noda'r Pwyllgor mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw defnyddio'r cynllun diswyddo arfaethedig i sicrhau cymysgedd sgiliau a fydd yn gallu ymateb yn well i anghenion y gwaith yn y dyfodol. Mae'n amcangyfrif y gallai tua saith neu wyth o aelodau staff adael o dan y cynllun, yn seiliedig ar y mynegiannau o ddiddordeb a gafwyd mewn cysylltiad â'r cynllun blaenorol, ac y bydd y cynllun newydd yn arwain at arbedion rheolaidd o £200,000 y flwyddyn.

7. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor nad yw'n gweld bod angen unrhyw ddiswyddiadau gorfodol ar hyn o bryd. Addawodd hefyd mai dim ond at ddibenion y cynllun hwn y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ac y byddai unrhyw arian na ddefnyddir yn cael ei ddychwelyd. Nid oedd yn disgwyl unrhyw gostau ychwanegol mewn cysylltiad â'r cynllun mewn blynyddoedd ariannol i ddod.

**Sylwadau**

8. Hoffai'r Pwyllgor i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law yn cadarnhau gwir gostau'r cynllun diswyddo gwirfoddol, y nifer o staff sy'n gadael, a'r arbedion blynyddol rheolaidd gwirioneddol y bydd hyn yn ei olygu, ynghyd â'i asesiad o'r gwelliannau i'r gymysgedd sgiliau a sicrhawyd, ac unrhyw gamau gweithredu y gallai fod eu hangen yn y dyfodol.

9. Mae amcangyfrif atodol yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffaith bod cyfrifon 2010-11 Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi tanwariant o £569,000 yn erbyn y swm a awdurdodwyd ar gyfer y flwyddyn honno ac y byddai'r swm hwnnw yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y swm ychwanegol y gwnaed cais amdano ar gyfer 2011-12. Dymuna'r Pwyllgor bwysleisio ei fod yn cefnogi cais cyllideb atodol 2011-12 am ei fod o'r farn bod y cynllun diswyddo gwirfoddol arfaethedig yn briodol yn yr hinsawdd bresennol ac am y byddai yn helpu i sicrhau gwell gwerth am arian yn gyffredinol.

**Ni ddylai unrhyw gorff cyhoeddus gymryd yn ganiataol na gosod cynsail y byddai'r Cynulliad yn cytuno i arbedion un flwyddyn gael eu cario drosodd a'u defnyddio mewn blwyddyn arall.**

# Casgliadau

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn nodi'r newidiadau arfaethedig yn y cais cyllideb atodol ac esboniad yr Archwilydd Cyffredinol o'r rhesymau drostynt.

Ar ôl ystyried yr amcangyfrif a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cais cyllideb atodol ac yn fodlon iddo gael ei gynnwys yn y cynnig cyllideb atodol ffurfiol a gaiff ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru.

Caiff y cais ei gymeradwyo ar yr amod fod yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiad maes o law ar ganlyniad y cynllun diswyddo gwirfoddol.

**Darren Millar AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Hydref 2011**